S4C

**Datganiad Cyflenwyr: Aflonyddu Rhywiol**

1. Mae S4C wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n rhydd rhag aflonyddu ac i sicrhau bod ei staff yn cael eu trin, ac yn trin eraill, ag urddas a pharch. Mae S4C yn cefnogi Awdurdod Safonau Annibynnol y Diwydiannau Creadigol (CIISA) ac yn eirioli ei safonau cyhoeddedig.

2. Yn unol ag adran 40A o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chanllawiau technegol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, rhaid i S4C gymryd camau rhesymol i atal ei staff rhag bod yn destun aflonyddu rhywiol, yn ystod eu cyflogaeth, gan drydydd parti. Mae trydydd partïon yn cynnwys Cyflenwyr S4C a'r rhai sy'n cael eu cyflogi ganddynt neu sy'n eu cynrychioli.

**Beth yw aflonyddu?**

3. Aflonyddu yw unrhyw ymddygiad digroeso – boed yn gorfforol, geiriol neu ddi-eiriau, sydd â'r pwrpas neu'r effaith o darfu ar urddas person neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus iddynt. Gall un digwyddiad fod yn aflonyddu.

4. Gall Aflonyddu Rhywiol gynnwys, er enghraifft:

4.1. ymddygiad corfforol digroeso neu chwareus, gan gynnwys cyffwrdd, pinsio, gwthio a chydio.
4.2. sylw rhywiol digroeso neu ymddygiad awgrymog (y gall yr aflonyddwr ei weld yn ddiniwed);
4.3. e-byst, negeseuon testun neu gynnwys cyfryngau cymdeithasol o natur rywiol; a
4.4. gwatwar, dynwared neu fychanu ymddangosiad corfforol person mewn rhyw fodd.

5. Gall person gael ei aflonyddu hyd yn oed os nad dyna oedd y "targed" bwriedig. Er enghraifft, gall jôcs o natur rywiol aflonyddu ar berson os yw'r jôcs hynny'n creu amgylchedd sarhaus.

**Disgwyliadau S4C**

6. Mae'r datganiad hwn yn ategu Cod Safonau Cyflenwyr S4C.
https://www.s4c.cymru/media/media_assets/Cod_Safonau_Cyflenwyr_Medi_2021terfynnol.docx

7. Disgwylir i gyflenwyr annog pobl i beidio ag aflonyddu rhywiol trwy ei gwneud yn glir i'r rhai sy'n gweithio iddynt neu ar eu rhan eu bod yn gweld ymddygiad o'r fath yn annerbyniol.

8. Dylai holl gyflenwyr S4C sicrhau bod ganddynt eu polisïau a'u gweithdrefnau mewnol eu hunain yn eu lle ar gyfer atal ac adrodd am unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol.

**Cyfeirio at S4C**

9. Mae'n rhaid i gyflenwyr sy'n cael eu gwneud yn ymwybodol o aflonyddu rhywiol, gwirioneddol neu honedig, gan y rhai sy'n cael eu cyflogi ganddynt neu maent yn cynrychioli, adrodd yn ddiymdroi am achos(ion) o'r fath i S4C. Dylid cyflwyno adroddiadau trwy e-bost at pryder_concern@s4c.cymru

10. Dylai cyflenwyr sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cyflogi ganddynt neu sy'n eu cynrychioli yn cael eu hannog i adrodd am unrhyw achosion o aflonyddu rhywiol yn erbyn staff S4C, boed yn wirioneddol neu'n honedig. Dylid cyflwyno adroddiadau o'r fath naill ai i'r Cyflenwr, yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant S4C neu yn unol â Pholisi Rhannu Pryder S4C. Dylai cyflenwyr nodi'n glir na fydd unigolion sy'n adrodd yn ddidwyll yn cael eu herlid na'u dial o unrhyw fath o ganlyniad.

**Gweithredu gan S4C a'r Cyflenwr yn dilyn atgyfeiriad**

11. Bydd S4C yn ymchwilio'n drylwyr i unrhyw achos gwirioneddol neu honedig o aflonyddu rhywiol. Disgwylir i gyflenwyr gydweithredu'n llawn mewn unrhyw ymchwiliad o'r fath, gan gynnwys drwy ddarparu mynediad rhesymol i unigolion a gyflogir ganddynt neu sy'n eu cynrychioli.

12. Tra’n parchu ymreolaeth gweithdrefnau personél mewnol cyflenwyr, mae S4C yn disgwyl i Gyflenwyr ddilyn eu hymchwiliad a’u proses ddisgyblu eu hunain (os yn berthnasol) yn unol â gofynion cyfreithiol ac arfer gorau.

13. Os bydd digwyddiad gwirioneddol o aflonyddu rhywiol, neu ddigwyddiad honedig lle mae S4C yn credu'n rhesymol bod sail dda i'r honiad, mae S4C yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau y mae'n rhesymol eu hystyried yn angenrheidiol. Gall hyn gynnwys (ond nid yw’n gyfyngedig i) ei gwneud yn ofynnol i’r Cyflenwr atal yr unigolyn(ion) perthnasol rhag darparu nwyddau neu wasanaethau i S4C ar ei ran.  Mae S4C hefyd yn cadw'r hawl i orfodi ei hawliau cytundebol presennol a/neu roi'r gorau i ymrwymo i unrhyw gytundebau newydd gyda'r Cyflenwr.

14. Mae aflonyddu ar unrhyw sail hefyd yn drosedd, yn bennaf o dan Ddeddf Diogelu Rhag Aflonyddu 1997. O'r herwydd, mae S4C yn cadw'r hawl i gyfeirio achosion o aflonyddu rhywiol gwirioneddol neu honedig at yr Heddlu.

**S4C**
**Mehefin 2025**